

CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

DEDDF ADNODDAU DŴR 1991

IS-DEDDFAU GWIALEN A LLINYN AFON WYSG (EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR) 2021

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth arfer ei bwerau dan adran 210 a pharagraff 6(1) (b) a 6(2)(a) o Atodlen 25 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, yn gwneud yr is-ddeddfau canlynol.

Is-ddeddf 1 – Teitl

Gellir galw'r is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afon Wysg (Eogiaid a Brithyllod y Môr) 2021.

Is-ddeddf 2 – Defnydd

Caiff yr is-ddeddfau hyn eu darllen ar y cyd ag Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995, fel y'u diwygiwyd, ac Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Cymru (Eogiaid a Brithyllod y Môr) 2017.

Bydd effaith yr is-ddeddfau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029.

Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

- (a) ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.
- (b) ystyr "afon Wysg" yw afon Wysg yn ei chyfanrwydd a'i hisafonydd.
- (c) ystyr "eog" yw eog o'r rhywogaeth *Salmo salar*, ac mae'n cynnwys rhan o eog;

ystyr "brithyll y môr" yw unrhyw bysgodyn o deulu'r eog a adwaenir yn gyffredinol fel brithyll y môr neu sewin (brithyll mudol), ac mae hefyd yn cynnwys rhan o frithyll y môr.

- (d) ystyr "Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995" yw'r is-ddeddfau sy'n rheoleiddio pysgota â gwialen a llinyn ac sy'n gwneud darpariaethau cyffredinol penodol mewn perthynas â materion pysgodfeydd a wneir gan ranbarth Cymru'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol.
- (e) Ac eithrio fel y darperir uchod neu lle mae'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu diffinio gan yr ystyr a roddir iddynt gan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 neu unrhyw addasiadau statudol neu aiddeddfiad ohonynt.

Is-ddeddf 4 – Dal a rhyddhau â gwialen a llinyn (eogiaid)

- (a) Yn unol â'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd sy'n berthnasol i afon Wysg, ac sydd eisoes yn bodoli, bydd unrhyw unigolyn sy'n cymryd unrhyw eog, yn fyw neu'n farw, o afon Wysg, â gwialen a llinyn, heb awdurdodiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn euog o gyflawni trosedd.
- (b) Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n cymryd eog yn gyfreithlon ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda'r anaf lleiaf posibl.

Is-ddeddf 5 – Dal a rhyddhau â gwialen a llinyn (brithyll y môr)

- (a) Bydd unrhyw unigolyn sy'n cymryd unrhyw frithyll y môr, cyn 1 Mai, yn fyw neu'n farw, o afon Wysg, â gwialen a llinyn, heb awdurdodiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn euog o gyflawni trosedd.
- (b) Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n cymryd brithyll y môr yn gyfreithlon ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda'r anaf lleiaf posibl.

CYFLAWNWYD fel gweithred gan
GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU
trwy osod y Sêl Gyffredin ym mhresenoldeb:

Llofnod:

S. Abrey

Enw (llythrennau bras):

S. ASBREY

Cyfeiriad:

TY CAMBRIA
CARDIFF

Swydd:

PENNAETH GWASANAETHAU
CYFREITHIOL

